Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

**Tystiolaeth i Bwyllgor Cynaliadwyedd Llywodraeth Cynulliad Cymru**

**Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru: Cymru Fyw: Fframwaith Amgylchedd Naturiol a'r Opsiynau Cyflenwi Amgylcheddol / Corff Amgylcheddol Sengl**

**17eg o Fawrth 2011**

Mae achos cymhellol dros fabwysiadu dull o lywodraethu amgylcheddol mwy integredig er mwyn gwella prosesau cyflawni canlyniadau amgylcheddol sy'n adlewyrchu natur gymhleth systemau amgylcheddol a'r ffyrdd maent yn rhyngweithio, gwerth ein hadnoddau naturiol i ddatblygu cymdeithasol ac economaidd a'r pwysau sy'n gysylltiedig â therfynau naturiol a newid yn yr hinsawdd. Felly mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn croesawu'r adolygiad o drefniadau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru, gan gynnwys prosesau'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol a'r Opsiynau Cyflenwi Amgylcheddol, am eu bod yn rhoi cyfle strategol i drawsnewid y ffordd rydym yn cynllunio ac yn rheoli ein hamgylchedd daearol, morol a dŵr croyw ac yn rhoi gwerth arno yn ardaloedd trefol a gwledig Cymru, yn awr ac, yn bwysicach fyth, ar gyfer y dyfodol.

Mae CCGC o'r farn bod angen i'r prosiect Opsiynau Cyflenwi Amgylcheddol gael ei lywio gan y canlynol:

- Y dadansoddiad manwl gan ffrydiau gwaith y Fframwaith Amgylchedd Naturiol a fydd yn nodi'r hyn y mae angen ei newid er mwyn cyflawni'r dull gweithredu newydd o ran rheoleiddio, rheoli, partneriaethau a thystiolaeth
- Y newidiadau ym maes llywodraethu amgylcheddol sy'n digwydd mewn mannau eraill: yn fyd-eang (Cytundeb a Chynllun Strategol diwygiedig y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol, yr astudiaeth fyd-eang o Ecosystemau a Bioamrywiaeth (TEEB); ar lefel Ewropeaidd Strategaeth a thargedau Bioamrywiaeth diwygiedig yr UE ac ar lefel y DU yr Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol, Papur Gwyn Llywodraeth y DU ar y Strategaeth Amgylchedd Naturiol a Bioamrywiaeth ac Adolygiad Lawton o systemau bywyd gwyllt a systemau ecolegol Lloegr.

Os caiff corff amgylcheddol sengl newydd ei greu, mae CCGC o'r farn y dylai'r corff:

- Gael cylch gwaith statudol clir i ddiogelu, cadw a gwella'r amgylchedd, yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy
- Bod yn llais annibynnol ac awdurdodol ar yr amgylchedd, gan roi cyngor i'r Llywodraeth, yn seiliedig ar wyddoniaeth gadarn.
- Meddu ar weledigaeth glir a rennir ar gyfer cyflenwi amgylcheddol a swyddogaethau amgylcheddol cyn ei sefydlu a gwneud yn eglur rôl a chylch gwaith y corff newydd, rôl y Llywodraeth (ar draws adrannau), byd busnes a'r trydydd sector
- Gallu sicrhau gwelliannau o ran canlyniadau amgylcheddol yn ogystal ag arbedion effeithlonrwydd

Lansiwyd ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru sef '*Cymru Fyw: fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd (2010)*'[1] mewn ymateb i'r methiant i gyflawni rhwymedigaethau o dan y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol, yr Undeb Ewropeaidd a Strategaeth Amgylchedd Cymru[2]. Nododd Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet ar

1 Cymru Fyw: fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd – ymgynghoriad (15 Medi 2010): http://cymru.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/eshlivingwalescons/?lang=cy

2 Tudalennau gwe Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Strategaeth Amgylchedd Cymru: http://cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/envstratforwales/?skip=1&lang=cy

Fioamrywiaeth a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2010[3] y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adfywio sylfaen ei hymagwedd tuag at Fioamrywiaeth a Chadwraeth Natur drwy adolygu ei ffyrdd o fynd i'r afael â'r nodau a'r amcanion hyn ar hyn o bryd.

Bydd hyn yn gofyn am gydnabod pwysigrwydd cenedlaethol strategol yr amgylchedd, er ei fwyn ei hun a hefyd i les economaidd a chymdeithasol. Felly, rydym yn croesawu statws y Fframwaith Amgylchedd Naturiol fel sail i'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy[4], y mae diogelu a gwella bioamrywiaeth yn elfen allweddol ohono, gan gydnabod bod angen parhau i barchu terfynau amgylcheddol. Dylai'r statws newydd hwn helpu i fynd i'r afael â'r pwysau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd a therfynau gallu ac adnoddau naturiol a chydnabod rôl gwasanaethau ecosystem o ran cefnogi lles economaidd a chymdeithasol. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu newidiadau mewn syniadaeth a pholisi ar lefel y Confensiwn ar Fioamrywiaeth ac ar lefel Ewropeaidd.

Hyd yma mae'r Adolygiad o Opsiynau Cyflenwi Amgylcheddol a'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol wedi canolbwyntio ar ddeddfwriaeth, polisi a strategaeth amgylcheddol a'r cyrff amgylcheddol. Yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy a sicrhau dull o lywodraethu amgylcheddol integredig, dylid nodi nad cyfrifoldeb y cyrff amgylcheddol yn unig yw'r systemau sydd ar waith i sicrhau gwell canlyniadau amgylcheddol a'r ffactorau sy'n llywio'r gwaith o'u cyflawni ac nad ydynt yn gyfyngedig i ddeddfwriaeth, polisi, strategaeth a chamau gweithredu amgylcheddol.

Bydd y dull gweithredu newydd hwn yn gofyn am integreiddio ystyriaethau amgylcheddol ar draws polisïau a fframweithiau. Gan y cydnabyddir bod y methiant i wneud hynny i'w briodoli'n rhannol i ddiffyg integreiddio ar draws adrannau'r Llywodraeth a sectorau, byddem yn argymell y rhoddir yr un sylw i lywodraethu amgylcheddol y tu allan i'r cyrff amgylcheddol a deddfwriaeth a pholisi amgylcheddol. Felly, rydym yn croesawu ymrwymiad y Llywodraeth i ailedrych ar y polisïau a chamau gweithredu ategol a chyfraniad presennol meysydd polisi eraill i sicrhau eu bod yn cyflawni'r dull gweithredu newydd yn effeithiol[5]. Mae'n werth nodi i Adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Fioamrywiaeth yng Nghymru[6] bwysleisio pwysigrwydd integreiddio ar draws adrannau Llywodraeth ac ar draws sectorau.

Yng nghyd-destun dealltwriaeth newydd o'r cysylltiad rhwng yr amgylchedd a'r economi, bydd angen model datblygu newydd lle y sicrheir datblygu economaidd a ffyniant cymdeithasol gydag amgylchedd naturiol iach a chanddo. Mae'r Rhaglen newydd ar gyfer Adnewyddu'r Economi[7] yn gam tuag at sicrhau bod yr amgylchedd yn rhan hanfodol o seilwaith economi lwyddiannus ac yn sail i les economaidd a chymdeithasol yn y dyfodol. Dylai'r dull hwn o ymdrin â'r amgylchedd naturiol fod yn elfen fwy sylweddol o bolisïau craidd eraill y Llywodraeth megis iechyd ac addysg, gan gydnabod bod cyfraniad y gwasanaethau a gawn gan natur wrth wraidd lles cymdeithasol.

Wrth symud tuag at fframwaith newydd bydd yn hanfodol sicrhau nad ydym yn diystyru rôl a chyfraniad ein rhwydwaith presennol o ardaloedd gwarchodedig o ran ategu'r fframwaith newydd ynghyd ag angen parhaus i fuddsoddi er mwyn sicrhau rhwydwaith llawn

3 Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet ar Fioamrywiaeth, 18 Ionawr 2010: http://cymru.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2010/100118bio/?skip=1&lang=cy
4 Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru: Cymru'n Un, Cenedl Un Blaned (2009): http://cymru.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/onewalesoneplanet/?skip=1&lang=cy
5 A Living Wales – Progress Report: Statement of Next Steps and Principles, Llywodraeth Cynulliad Cymru (Chwefror 2011): http://wales.gov.uk/docs/desh/consultation/110225nefnextstepsen.pdf
6 Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Ymchwiliad i fioamrywiaeth yng Nghymru (Ionawr 2011): http://www.cynulliadcymru.org/cy/cr-ld8384-e.pdf
7 Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad newydd - Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru (Mehefin 2010): http://cymru.gov.uk/topics/businessandeconomy/help/economicrenewal/?lang=cy

weithredol. Dylai dull ecosystemau sy'n canolbwyntio ar waith rheoli cadarnhaol ar draws y dirwedd ehangach helpu i sicrhau ecosystemau cydnerth yn ogystal â diogelu a gwella cynefinoedd, rhywogaethau a geoamrywiaeth. Wrth symud tuag at fframwaith newydd mae'n rhaid i ni hefyd gofio bod angen cadw targedau ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau yn ogystal â gwasanaethau ecosystemau a pharhau i'w monitro. Mae'n rhaid i'r fframwaith newydd hefyd gwmpasu'r amgylchedd trefol er mwyn cydnabod y gydberthynas rhwng ardaloedd trefol a gwledig yng Nghymru a phwysigrwydd seilwaith gwyrdd yr amgylchedd trefol i sicrhau buddiannau i'r cyhoedd.

Mae coedwigaeth yn elfen allweddol o wasanaethau ecosystemau. Ym marn CCGC, bydd yn bwysig iawn sicrhau bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn rhan o'r Corff Amgylcheddol Sengl newydd. Mae ystad coetir Llywodraeth y Cynulliad yn ymestyn dros 6% o arwynebedd tir Cymru a 39% o'i choetir. Dylai'r ystad coedwigoedd fod yn esiampl o sut mae'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol yn gweithio'n ymarferol fel rhan o ethos unedig ar gyfer rheoli tir yng Nghymru.

Mae ein systemau presennol ar gyfer cynllunio a rheoli defnydd tir ac asedau amgylcheddol yn dyddio o'r 1940au pan oedd ein dealltwriaeth o'r amgylchedd, ei brosesau a'r ffactorau allweddol sy'n sbarduno newid yn wahanol iawn. Mae hyn wedi arwain at asedau amgylcheddol ac ymatebion polisi ac ymatebion deddfwriaethol tameidiog. Bydd angen ystyried deddfwriaeth amgylcheddol, fframweithiau rheoleiddio a fframweithiau rheoli er mwyn nodi a allant ddarparu gwasanaethau ecosystemau. Wrth ailystyried y ddeddfwriaeth bresennol, bydd yn bwysig penderfynu a yw ei heffeithiolrwydd neu ddiffyg effeithiolrwydd yn deillio o'r darpariaethau deddfwriaethol eu hunain, y ffordd y'u dehonglir neu'r modd y'u gweithredir. Dylai adolygiad o gyfraith achosion ar ddeddfwriaeth benodol fod yn rhan annatod o'r fath asesiad. Gwnaed rhywfaint o waith eisoes ar y modd y gweithredir deddfwriaeth amgylcheddol sy'n deillio o Ewrop a'r DU. Er ei bod yn sicr y bydd angen ystyried diwygio a/neu wella rhannau o'r ddeddfwriaeth bresennol, byddai ein profiad yn awgrymu bod gwendidau yn y modd y'i cyflawnir ar hyn o bryd yn deillio'n bennaf o'r modd y caiff ei dehongli, ei gweithredu a'i gorfodi, yn hytrach na'r ddeddfwriaeth ei hun. Byddai dadansoddiad o'r ymateb i ymgynghoriad Cymru Fyw yn ategu'r farn hon. Dylid cynnal unrhyw adolygiad o ddulliau rheoleiddio yng nghyd-destun egwyddorion Hampton ar gyfer gwell rheoleiddio[8].

Yn ogystal â chyfrifoldebau statudol ac anstatudol gwahanol y tair Asiantaeth, ceir enghreifftiau o ddeddfwriaeth neu reoliadau gweithredu lle y bydd gan un neu ragor o'r Asiantaethau neu bob un ohonynt gyfrifoldebau, megis Asesiad Amgylcheddol Strategol. Yn yr achosion hyn, wrth asesu'r trefniadau ar gyfer ffurf a swyddogaeth nawr ac yn y dyfodol, bydd yn bwysig sicrhau yr ystyrir yr holl bwerau a dyletswyddau statudol (ac anstatudol) ac, a hyn sy'n bwysig, nodi gwahanol swyddogaethau Asiantaethau unigol y tu mewn iddynt (arbenigedd gwyddonol a/neu dechnegol).

Mae un o'r enghreifftiau mwyaf perthnasol wrth ystyried Opsiynau Cyflenwi Amgylcheddol yn ymwneud â'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol a chyfraith achosion berthnasol. Bu mater gweithredu'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn destun adolygiad barnwrol yng Ngogledd Iwerddon ac mae wrthi'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Lys Ewrop. Daeth yr adolygiad barnwrol yng Ngogledd Iwerddon i'r casgliad bod telerau'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol yn golygu y dylid gwahanu'r awdurdod cyfrifol (y corff sy'n llunio cynlluniau neu brosiectau) a'r corff ymgynghori; a nododd na ellid gwneud hyn drwy gael is-adrannau pendant o fewn yr un adran na, thrwy oblygiad, drwy gael adrannau gwahanol o fewn un corff. Wrth ystyried unrhyw newid yn swyddogaethau'r Asiantaethau, byddai angen ystyried mater cyrff unigol yn cymryd cyfrifoldeb am asesu cynlluniau'r llall/lleill yng nghyd-destun y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol, y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, eu rheoliadau gweithredu, a chyfraith achosion berthnasol.

---

8 Tudalennau gwe'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau ar Egwyddorion Hampton: http://www.bis.gov.uk/policies/better-regulation/improving-regulatory-delivery/assessing-our-regulatory-system

Wrth i Gymru ddatblygu ei dull ei hun o reoli'r amgylchedd a'r gweinyddiaethau datganoledig ddatblygu dulliau newydd o'i reoli, gan gynnwys cyfleoedd i gyflwyno newidiadau sefydliadol a deddfwriaethol, bydd yn hanfodol sicrhau bod cyd-destunau polisi a llywodraethu ar lefel Fyd-eang, ar lefel Ewropeaidd ac ar lefel y DU yn cael eu hystyried yn llawn ac y caiff trefniadau cadarn ar gyfer gwaith trawsffiniol eu cynnal a/neu eu sefydlu. Mae hyn yn hanfodol, nid yn unig er mwyn sicrhau y parheir i gydymffurfio â gofynion o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd a'u monitro ar lefel Aelod-wladwriaeth, ond hefyd i ddatblygu dull cyffredin, integredig a chydategol o ddiogelu a gwella ein hamgylchedd naturiol a rennir, gan gydnabod nad yw'n gweithredu yn ôl ffiniau gwleidyddol. Felly, rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu Cyfarwyddebau Ewropeaidd (e.e. y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, y Gyfarwyddeb Adar, Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol a'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol) yn yr adroddiad cynnydd ar y Fframwaith Amgylchedd Naturiol a gyhoeddwyd yn ddiweddar[9].

Mae'n amlwg y bydd angen deddfwriaeth i greu corff amgylcheddol sengl yng Nghymru, y ceisir darpariaethau ar ei gyfer yn y Mesur Cyrff Cyhoeddus, sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd yn San Steffan. Gellid cyfyngu ar ddeddfwriaeth i greu corff newydd i ddarpariaethau ar gyfer uno a throsglwyddo swyddogaethau a dyletswyddau presennol y tair Asiantaeth amgylcheddol yn uniongyrchol i'r corff newydd. Mae pwerau deddfwriaethol newydd a ddatganolwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi cyfle i ystyried creu deddfwriaeth amgylcheddol newydd a allai atgyfnerthu deddfwriaeth bresennol yn ogystal â gwella'r gyfraith bresennol, megis y cynnig i atgyfnerthu'r ddyletswydd bioamrywiaeth ar awdurdodau cyhoeddus sy'n deillio o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, a hefyd ddyletswydd sydd ar yr awdurdodau hyn i ystyried swyddogaethau a gwasanaethau ecosystemau yn eu prosesau gwneud penderfyniadau a'u gweithgareddau.

---

9 A Living Wales – Progress Report: Statement of Next Steps and Principles, Llywodraeth Cynulliad Cymru (Chwefror 2011), pwynt 8, tudalen 4:
http://wales.gov.uk/docs/desh/consultation/110225nefnextstepsen.pdf

**ATODIAD 1: Llywodraethu Amgylcheddol: Y Cyd-destun**

Er i gynnydd gael ei wneud, methodd Cymru, yr UE a thu hwnt â chyflawni targedau bioamrywiaeth rhyngwladol, Ewropeaidd a chenedlaethol yn 2010. Nodwyd bod colli cynefinoedd a darnio a diraddio ecosystemau ar raddfa eang yn rhai o brif achosion y methiant hwn. Ym mis Hydref 2010, mabwysiadwyd Cytundeb Bioamrywiaeth Nagoya'r Confensiwn newydd ar Amrywiaeth Biolegol[10]. Mae Cynllun Strategol y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol[11] yn nodi'r fframwaith polisi rhyngwladol ar gyfer bioamrywiaeth ar gyfer y degawd nesaf ac ar ôl hynny.

Mae tystiolaeth glir na ellir ystyried yr amgylchedd a'r economi ar wahân mwyach a bod angen i ystyriaethau amgylcheddol fod yn rhan annatod o bolisi economaidd. Ystyriodd yr astudiaeth fyd-eang o Economeg Ecosystemau a Bioamrywiaeth (TEEB)[12], a gyflwynodd ei hadroddiad ar 20fed Hydref 2010[13], fanteision economaidd byd-eang ecosystemau a bioamrywiaeth a dulliau o nodi eu gwerth, cost gynyddol colli bioamrywiaeth, diraddio cynefinoedd ac ecosystemau, a gwnaeth nifer o argymhellion ar y dull gweithredu roedd angen ei fabwysiadu i brif ffrydio economeg natur, gan gynnwys adroddiad penodol i lunwyr polisi[14] a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2011.

Amlinellodd y Comisiynydd Ewropeaidd dros yr Amgylchedd, Janez Potočnik, yn ei araith i Gyngor Llywodraethu UNEP ym mis Chwefror 2011[15], yr hyn y mae'r UE yn ei wneud i roi ystyr i'r cysyniad o economi werdd (y mae twf gwyrdd yn rhan ohono). Awgrymwyd y dylai fod pum elfen i unrhyw strategaeth economi werdd, sef:

- Ni ddylai ddisodli'r amcan datblygu cynaliadwy ehangach
- Gall sicrhau twf a swyddi a helpu i ddileu tlodi ac mae'n rhaid iddo wneud hynny
- **Ni all lwyddo oni bai ei bod yn seiliedig ar reoli cyfalaf naturiol**
- **Ni all y gymuned amgylcheddol yn unig fod yn gyfrifol am ei chynllunio a'i gweithredu ac ni ddylai fod yn gyfrifol am wneud hynny**
- Nid oes un model sy'n "addas i bawb"

Ym mis Chwefror 2011 cyhoeddwyd partneriaeth newydd i hyrwyddo gweithredu byd-eang o ran datblygu cynaliadwy a helpu gwledydd sy'n datblygu i wneud eu heconomïau yn fwy gwyrdd gan y Comisiynydd Potočnik ac Is-Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig a Chyfarwyddwr Gweithredol Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig (UNEP) sef Achim Steiner. Cyhoeddwyd cyd-ddatganiad[16] fel arwydd o'u hewyllys wleidyddol newydd i atgyfnerthu, datblygu, cydweithredu mwy a gwella eu heffeithiolrwydd i gyflawni eu nodau

---

10 Y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol: http://www.cbd.int/
11 Strategic Plan for Biodiversity 2011-2020: Provisional Technical Rationale, Possible Indicators and suggested milestones for the AICHI Biodiversity Targets, Nodyn gan yr Ysgrifennydd Gweithredol (19 Rhagfyr 2010): http://www.cbd.int/doc/meetings/cop/cop-10/official/cop-10-27-add1-en.doc
12 The global study on the Economics of Ecosystems and Biodiversity: http://teebweb.org/
13 Mainstreaming the Economics of Nature: A Synthesis of the Approach, Conclusions and Recommendations of TEEB (20 October, 2010): http://teebweb.org/LinkClick.aspx?fileticket=bYhDohL_TuM%3d&tabid=924&mid=1813
14 The Economics of Ecosystems and Biodiversity in National and International Policy Making, February 2011: http://www.teebweb.org/EarthscanVolumes/tabid/29408/Default.aspx
15 Araith Janez Potočnik, y Comisiynydd Ewropeaidd dros yr Amgylchedd Tuag at yr Economi Werdd 26ain Cyngor Llywodraethu UNEP - Fforwm Amgylcheddol Gweinidogol Byd-eang Nairobi (Kenya), 22 Chwefror 2011: http://europa.eu/rapid/pressReleasesAction.do?reference=SPEECH/11/115&format=HTML&aged=0&language=EN&guiLanguage=en
16 Cyd-ddatganiad y Comisiwn Ewropeaidd (CE) a Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig (UNEP) ar gyfer 2011-2013 (16 Chwefror 2011): http://www.unbrussels.org/images/pdf/2011/EC-UNEP-joint-statement-23Feb2011.pdf

a'u hamcanion cyffredin. Lansiodd Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig[17] (UNEP) ei hadroddiad, *Towards a Green Economy: Pathways to Sustainable Development and Poverty Eradication*[18] hefyd, a nododd fod 10 sector yn allweddol er mwyn gwneud yr economi fyd-eang yn fwy gwyrdd, sef amaethyddiaeth, adeiladau, cyflenwad ynni, pysgodfeydd, coedwigaeth, diwydiant gan gynnwys effeithlonrwydd ynni, twristiaeth, trafnidiaeth, rheoli gwastraff a dŵr.

Yn y cyd-destun hwn, mabwysiadodd Cyngor Gweinidogol y Sefydliad er Cydweithredu a Datblygu Economaidd (OECD)[19] **Ddatganiad ar Dwf Gwyrdd**[20] ym mis Mehefin 2009 a chytunodd i ddatblygu **Strategaeth Twf Gwyrdd**, y disgwylir iddi gael ei chyhoeddi yn 2011. Bydd y Strategaeth yn nodi argymhellion polisi i helpu Llywodraethau i wneud eu heconomïau yn fwy gwyrdd, yn seiliedig ar ddadansoddiad o bolisïau amgylcheddol ac economaidd gyda'i gilydd. Mae adroddiad interim y Strategaeth Twf Gwyrdd[21] yn nodi canfyddiadau rhagarweiniol ar nifer o broblemau sy'n wynebu llunwyr polisi wrth newid i economïau mwy gwyrdd.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wrthi'n adolygu ei ddull o ymdrin â chadwraeth natur. Cyflwynodd Llywyddiaeth Sbaen dros yr UE bapur ym mis Ionawr 2010 ar atal colli bioamrywiaeth, gan nodi bod integreiddio gwael mewn polisïau sectoraidd yn un o'r prif resymau pam mai dim ond 17% o rywogaethau a chynefinoedd o ddiddordeb cadwraeth yn Ewrop sydd â statws cadwraeth ffafriol. Ym mis Mawrth 2010, cytunodd Cyngor Amgylchedd Ewrop ar weledigaeth hirdymor newydd a phrif darged tymor canolig ar gyfer bioamrywiaeth ar ôl 2010 i 'atal colli bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau erbyn 2020, i adfer ecosystemau hyd y gellir a chynyddu cyfraniad yr UE at atal colli bioamrywiaeth yn fyd-eang'. Mae'r fframwaith newydd yn cadw'r nod o atal colli bioamrywiaeth ac yn rhoi **pwyslais newydd ar wasanaethau ecosystemau ac adfer ecosystemau**. Disgwylir i'r UE fabwysiadu Strategaeth Bioamrywiaeth newydd yng ngwanwyn/ haf 2011 ac mae'n debyg y bydd mesurau i wella cydlyniant rhwydwaith safleoedd Natura 2000, diogelu bioamrywiaeth yng nghefn gwlad ehangach a datblygu 'seilwaith gwyrdd' yn elfennau allweddol o'r strategaeth honno. Deilliodd y cysyniad o Seilwaith Gwyrdd (a rhwydweithiau ecolegol cysylltiedig) o'r ffaith y cydnabyddir bod ecosystemau yn gofyn am gysylltedd gweithredol i gynnal prosesau ecolegol a galluogi rhywogaethau i ledaenu a mudo lle y bo angen. Mae cyfathrebiad diweddar gan y Comisiwn[22] yn ystyried ei fod yn cynnwys ardaloedd sy'n gysylltiedig yn **ofodol** neu'n weithredol sy'n sicrhau cydlyniant ecolegol fel amod hanfodol ar gyfer ecosystemau iach. Dywed hefyd mai ei ddiben yw nid yn unig ailgysylltu poblogaethau rhywogaethau ond hefyd atgyfnerthu gweithrediad ecosystemau i ddarparu nwyddau a gwasanaethau i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt a gwella ansawdd bywyd (e.e. iechyd, twristiaeth, cyfleoedd busnes gwyrdd a diogelu treftadaeth hanesyddol a diwylliannol).

---

17 Gwefan Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig: http://www.unep.org/
18 Towards a Green Economy: Pathways to Sustainable Development and Poverty Eradication, Report of the United Nations Environment Programme (2011): http://www.unep.org/GreenEconomy/Portals/93/documents/Full_GER_screen.pdf
19 Gwefan y Sefydliad er Cydweithredu a Datblygu Economaidd: http://www.oecd.org/home/0,3675,en_2649_201185_1_1_1_1_1,00.html
20 http://www.oecd.org/dataoecd/58/34/44077822.pdf
21 Interim Report of the Green Growth Strategy: Implementing our commitment for a sustainable future; Cyfarfod Cyngor OECD ar Lefel Weinidogol (27-28 Mai 2010): http://www.oecd.org/dataoecd/42/46/45312720.pdf
22 *LIFE building up Europe's Green Infrastructure*. Addressing connectivity and enhancing ecosystem functions, y Comisiwn Ewropeaidd: http://ec.europa.eu/environment/life/publications/lifepublications/lifefocus/documents/green_infra.pdf
23 Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Ymchwiliad i fioamrywiaeth yng Nghymru (Ionawr 2011): http://www.cynulliadcymru.org/cy/cr-ld8384-e.pdf

Mae'r prosesau diwygio canlynol sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd yn strategol bwysig i ddatblygu Seilwaith Gwyrdd:

• Diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP) yn 2012;
• Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAP) yn 2013 (Polisi CAP a Datblygu Rhanbarthol);
• Diwygio Polisi Rhanbarthol yn 2013 (Cronfa Cydlyniant, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop);
• Persbectifau ariannol newydd 2014-2020: a fydd yn sicrhau bod digon o arian ar gael drwy offerynnau ariannu megis LIFE+;
• Arian/llinellau cyllideb ar gyfer addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd a'u lliniaru yn y dyfodol.

Fel y nodwyd yn y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd ac yn ei adroddiad ar ei Ymchwiliad i Fioamrywiaeth[23], mae'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros yr Amgylchedd yn y Comisiwn Ewropeaidd wrthi'n cytuno ar dargedau ar gyfer gwella bioamrywiaeth gyda Chyfarwyddiaethau Cyffredinol eraill o fewn y Comisiwn, gan gynnwys Amaethyddiaeth, Trafnidiaeth ac Ynni. Gellid gwneud hyn yng Nghymru hefyd.

Yn ogystal â datblygiadau polisi, mae'n werth nodi bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi arddel safbwynt cadarn ar weithredu cyfraith amgylcheddol Ewropeaidd. Mae sawl achos yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Lys Ewrop, megis methiant i weithredu'r Gyfarwyddeb Adar yng Ngwlad Pwyl a'r modd y mae Gogledd Iwerddon yn gweithredu'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Mae Cynllun Busnes Adrannol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) y DU[24] yn nodi bod gwella a diogelu'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys bioamrywiaeth a'r amgylchedd morol, drwy leihau llygredd, lliniaru allyriadau nwyon tŷ gwydr ac atal colli a diraddio cynefinoedd, yn brif flaenoriaeth. Disgwylir i DEFRA gyhoeddi **Strategaeth Bioamrywiaeth i Loegr** ochr yn ochr â **Phapur Gwyn ar yr Amgylchedd Naturiol**[25] ym mis Ebrill 2011. Mae'r Papur Gwyn yn dilyn ymgynghoriad '*An invitation to shape the Nature of England'*[26], a ddaeth i ben ym mis Hydref 2010. At hynny, mae **adolygiad Lawton** o safleoedd bywyd gwyllt a rhwydweithiau ecolegol yn Lloegr[27] yn rhoi dadansoddiad defnyddiol iawn o bwysigrwydd cael rhwydwaith ecolegol cydlynol a chydnerth a'r heriau a wynebir a'r dulliau gweithredu y bydd eu hangen i'w sicrhau. Mae'r adolygiad yn cynnig "[that] the overarching aim for England's ecological network should be to deliver a natural environment where*: Compared to the situation in 2000, biodiversity is enhanced and the diversity, functioning and resilience of ecosystems re-established in a network of spaces for nature that can sustain these levels into the future, even given continuing environmental change and human pressures".* Dylai'r **Asesiad o Ecosystemau Cenedlaethol y DU**[28] (y disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn mis Chwefror 2011), Papur Gwyn DEFRA ac Adolygiad Lawton 'Making Space for Nature: A review of England's Wildlife Sites and Ecological Network' (16 Medi 2010), lywio prosesau presennol y Fframwaith Amgylcheddol Naturiol a'r Swyddfa Datblygu Amgylcheddol (EDO).

---

23 Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Ymchwiliad i fioamrywiaeth yng Nghymru (Ionawr 2011): http://www.cynulliadcymru.org/cy/cr-ld8384-e.pdf
24 Cynllun Busnes Adrannol DEFRA: http://www.defra.gov.uk/corporate/about/what/documents/defra-businessplan-101108.pdf
25 Tudalennau gwe DEFRA ar y Papur Gwyn ar yr Amgylchedd Naturiol: http://www.defra.gov.uk/environment/natural/whitepaper/
26 Ymgynghoriad DEFRA *An invitation to shape the Nature of England* (2010): http://www.defra.gov.uk/environment/natural/whitepaper/
27 Adolygiad Lawton: 'Making Space for Nature: A review of England's Wildlife Sites and Ecological Network (16 Medi 2010): http://www.defra.gov.uk/environment/biodiversity/documents/201009space-for-nature.pdf
28 Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU: http://uknea.unep-wcmc.org/Home/tabid/38/Default.aspx

Mae gan yr Alban ei deddfwriaeth ei hun ar ffurf Deddf Cadwraeth Natur yr Alban 2004[29], ac yn ddiweddar cymeradwyodd yr adolygiad[30] o Fesur Bywyd Gwyllt a'r Amgylchedd Naturiol (yr Alban)[31] ar 3ydd Mawrth 2011. Nid oes unrhyw gorff annibynnol â chylch gwaith ar gyfer cadwraeth natur yng Ngogledd Iwerddon. Mae gan Adran yr Amgylchedd[32] yng Ngweithrediaeth Gogledd Iwerddon Uned Amgylchedd Naturiol o fewn yr Is-adran Adnoddau Naturiol ac mae'n gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon i ddatblygu a gweithredu polisïau.

---

29 Deddf Cadwraeth Natur yr Alban 2004: http://www.legislation.gov.uk/asp/2004/6/contents
30 Datganiad i'r Newyddion, Llywodraeth yr Alban, 3 Mawrth 2011: http://www.scotland.gov.uk/News/Releases/2011/03/03100802
31 Mesur Bywyd Gwyllt a'r Amgylchedd Naturiol (yr Alban): http://www.scottish.parliament.uk/s3/bills/52-WildNatEnv/index.html
32 Tudalennau gwe Adran yr Amgylchedd, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon: http://www.doeni.gov.uk/index.htm